

SHIPLEY, WILLIAM DAVIES (1745-1826), clerigwr

Enw: William Davies Shipley
Dyddiad geni: 1745
Dyddiad marw: 1826
Priod: Penelope Shipley (née Yonge)
Rhiant: Anna Maria Shipley (née Mordaunt)
Rhiant: Jonathan Shipley
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd ym Midgeham, Berkshire, 5 Hydref 1745, mab Jonathan Shipley (isod) ac Anna Maria ei wraig. Cafodd ei addysgu yn ysgolion Westminster a Winchester. Ymaelododd ym Mhrifysgol Rhydychen, 21 Rhagfyr 1763 o Eglwys Crist, a graddio B.A. yn 1769 ac M.A. yn 1771. Urddwyd ef yn ddiacon gan yr esgob Yonge o Norwich, 11 Mawrth 1770, ac yn offeiriad gan ei dad, 18 Mawrth. Drannoeth penodwyd ef yn ficer Ysgeifiog; 6 Chwefror 1771, yn ficer Wrecsam; 11 Ebrill 1772, yn rheithor (segur) Llangwm. Cymerodd yn gyfnwid am y rheithoraeth hon reithoraeth segur Corwen (8 Ionawr 1774) ac yna ficeriaeth Llanarmon-yn-Iâl (10 Ionawr 1782). Gwnaed ef hefyd yn ganghellor yr esgobaeth (19 Tachwedd 1773) ac yn ddeon (27 Mai 1774). Daliodd y swyddi hyn hyd ei farw ym Modryddan, Rhuddlan, Sir y Fflint, 7 Mai 1826. Claddwyd ef yn Rhuddlan, ac y mae cofadail iddo yng nghabidylly eglwys gadeiriol Llanelwy, ag arysgrif foliannus arni. Cyhoeddodd draethodyn o waith ei frawd-yng-nghyfraith, **Syr William Jones**, ar egwyddorion llywodraeth, a bu raid iddo sefyll ei brawf am gyhoeddi athrod a allai arwain i derfysg; ond ar ôl i'r achos barhau am ddwy flynedd, rhyddhawyd ef.

Ganwyd ei dad,

JONATHAN SHIPLEY (1714 - 1788),

mab Jonathan Shipley o Leeds a Martha ei wraig, yn Twyford; cafodd ei addysg yn Reading ac yng ngholegau S. Ioan ac Eglwys Crist yn Rhydychen. Graddiodd B.A. yn 1735 ac M.A. yn 1738; daliodd amryw swyddi eglwysig a dyrchafwyd ef yn esgob Llandaf yn 1769 a'i symud yr un flwyddyn i Lanelwy. Ymwelai yn achlysurol â'i esgobaeth.

Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874), i, 238, 255, 323; ii, 84, 149, 166, 213

cofrestri esgobaeth Llanelwy, Ll.G.C.

A. G. Edwards, *Memories* (Llundain 1927), 63-5

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 58640980

Wikidata: Q8007647

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Ellis, T. I., (1953). SHIPLEY, WILLIAM DAVIES (1745-1826), clerigwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 17 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-SHIP-DAV-1745>

CC0

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government